5.104
BRONHESTON, ABERDARE, SOUTH WALES

# CAN NEWYDD,

o

# Fawl i Grist,

*Am y fath iselder dirfawr y daeth iddo, trwy ei fawr gariad, er mwyn achub pechaduriaid.*

Cenir ar y dôn Fychan.

1 Dewch drigolion yr holl ddaear,
I roddi mawl i Grist yn hawddgar,
Am agoryd ffordd trwy gariad,
I achub torf o bechaduriaid.

2 Ein gwerthu wnaed gan Adda wreiddiol,
Yn ngardd Eden gynt i Ddiafol;
A dyma'r pryd cyhoeddwyd Iesu,
I dd'od mewn amser i'n gwaredu.

3 Yn nghyflawnder amser hyfryd,
Efe a ddaeth yn ol ei addewid,
At yr eiddo'i hun i deuodd,
A rhai'n trwy bechod ai gwthododd.

X2052103068

4 Er bod yn Bethlehem blasau hyfryd,
Ni chafwyd le i awdwr bywyd;
Ond pan y ganwyd Oen tangnefedd,
Mewn preseb ych fei rhoed i orwedd.

5 Yno rhwymwyd mewn cadachau,
Sylwedd mawr yr holl gysgodau;
Creawdwr môr, a daear, ac awyr,
Yn sugno bronau ei wael greadur.

6 Dydd y ganwyd Crist ein Llywydd,
Y nef a lanwyd o lawenydd;
Fe hedai Angelion Duw trwy gariad,
I draethu'r newydd i'r bugeiliaid.

7 Yno canent anthem wiwlon,
Gogoniant yn y goruwchafion;
Tangnefedd ar y ddae'r yn ebrwydd,
Mae ceidwad i chwi yn ninas Dafydd.

8 O'r wlad y dwyrain ar blygain-ddydd,
Doethion ddaeth i ddinas Dafydd;
Ac offrymasant i'r mab bychan,
Aur a thys a myrr yn fuan.

9 Simeon ganodd yn dra llawen,
Pan y gwelodd ef y baban;
Gan ddweyd hwn yw'r goleuni diogel,
Ac mae'n ogoniant i bobl Israel.

10 Yn wythnos oed dechreuodd ddiodde',
(O! mor ifanc) dros ein beiau;
Enwaedi wnaed yr Oen diniwed,
O'r fath gu ragorol gariad.

11 Tair blwydd ar ddeg ar hugain helaeth,
Yn wir a rodiau o flaen y gyfraith;

O fan i fan y teithiau'r Iesu,
O amgylch rhai gan wneyd daioni.

12 Iachau rhai cleifion byddau beunydd,
Fe roi i'r mudan ei leferydd;
I'r cloffion rhoddai draed i gerdded,
Efe a wnai i'r byddar glywed.

13 Troi'r dwr yn win a wnaeth o'i wirfodd,
Mawr y gwrthiau a gyflawnodd;
Yr Oen cywiredd a thrugarog,
Efe oedd porthwr y newynog.

14 Dioddefodd angen a thylodi,
Dwys ystyriwn ei dosturi;
Weithiau newyn, weithiau syched,
Oedd ar fab Duw pan ddaeth i'n gwared

15 Ni drown i nawr i Gethsemane,
Ar noswaith rewllyd yn y gaia',
Yno gwelwn ef mewn pridd-der,
Yn chwysi'r gwa'd yn ddafnau'r dda'r.

16 Ei ddysgyblion aeth oddiwrtho,
Yno ei hun 'roedd yn gweddio;
Un a'i gwerthodd, un a'i gwadodd,
A'r holl rai ereill a'i gadawodd.

17 Yno cyrchent o flaen Pilat,
Yr Iesu hawddgar, tra diniwed;
Ei fflangellu wnaent a'i guro,
A choron ddrain a roddent iddo.

18 Ei waed a ffrydiau trwy'r heolydd,
Hwn yn wir yw gwreiddyn Dafydd;
Dyma'r wialen o gyff Jesse,
Yn cario'r groes i fryn Calfaria.

19 Dyma sylwedd i broffwydi,
Dyma ddiwedd ar aberthu;
Dyma frawd a phriod Sion,
Wedi ei hoelio rhwng y lladron.

20 Dyma'r cyntaf a'r diwedda',
Dyma'r Alpha a'r mawr Omega;
Dyma'r bachgen i mi roddwyd,
Ar Galfaria'n dweyd gorphenwyd.

21 Hwn yw hen addewid Eden,
Hwn yw Seren Jacob lawen;
Haul cyfiawnder Malachia,
Yw'r gwr a welwyd ar Galfaria.

22 Craig yr oesoedd Silo sylwedd,
Mewn bedd o graig rhowd craig i orwedd
'Mhen y tridiau fe gyfododd,
Yn awr mae'n eiriol yn y nefoedd.

23 Arno rhoddwn inau'n gweddi,
O! rhown heibio'n holl ddrygioni;
Boed i ni ddweyd o galon addas,
O! Dudw'r cadernid doed dy deyrnas.

RICHARD WILLIAMS, a'i cânt.

*B. Morgan, Argraffydd, Merthyr.*